# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Preswyl Haulfre**

**Haulfre**
**Biwmares**
**LL58 8RY**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

08/07/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Preswyl Haulfre

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Ynys Môn |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 08 Mawrth 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl wedi setlo ac yn hapus yn byw yn y cartref. Maent yn dewis sut i dreulio eu diwrnod a chaiff gweithgareddau amrywiol eu cynnig, gyda theithiau cymdeithasol yn cael eu trefnu mor aml â phosibl. Caiff y bobl gyfleoedd i gael eu cynnwys mewn trafodaethau ynglŷn â sut yr hoffent gael eu cefnogi. Caiff eu dewisiadau eu cofnodi yn eu cynlluniau personol sy'n arwain y gweithwyr gofal ar y ffordd orau o gefnogi pob person. Caiff anghenion gofal y bobl eu diwallu pan fyddant yn codi, a chânt eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau dymunol. Mae angen gwella'r systemau sydd ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau mewn perthynas â'r broses storio a chofnodi.

Mae'r cartref yn lân, yn gyfforddus ac mewn cyflwr da. Caiff gwiriadau iechyd a diogelwch amgylcheddol eu cwblhau'n rheolaidd sy'n rheoli'r risgiau hysbys i ddiogelwch y bobl. Mae pob rhan o'r adeilad yn gartrefol ac yn addas ar gyfer anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae gardd fawr a hygyrch ar gael, gydag ardaloedd eistedd yn yr awyr agored.

Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel, a chânt hyfforddiant priodol. Mae tîm rheoli effeithiol ar waith ac mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau. Caiff y broses o redeg y cartref ei monitro'n gyson gan yr Unigolyn Cyfrifol, sy'n casglu adborth gan y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a'r gweithwyr gofal sy'n eu cefnogi yn rheolaidd.

## Llesiant

Gall y bobl gael gwasanaeth yn Gymraeg yn unol â'u dewis. Mae'r gwasanaeth yn parchu'r Gymraeg fel rhan bwysig o hunaniaeth y bobl a'r gymuned leol lle mae'r cartref wedi'i leoli. Clywsom y gweithwyr gofal yn siarad â'r bobl yn Gymraeg ac yn Saesneg, a dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau gwylio rhaglenni Cymraeg a gwrando ar yr orsaf radio Gymraeg. Gwelsom y gweithwyr gofal yn helpu'r bobl i wylio cyngherddau Cymraeg ar sgrin ryngweithiol y gwasanaeth ac arweiniodd hyn at drafodaeth grŵp am grwpiau cerddoriaeth Gymraeg.

Gwneir ymdrechion i hwyluso cyfleoedd i'r bobl fod yn rhan o’u cymuned. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod wedi helpu'r bobl i gymryd rhan yn sioe flodau'r pentref yn ddiweddar, ac roedd nifer o'r bobl wedi cofrestru ar gyfer cystadlaethau. Dywedodd y bobl wrthym fod hyn yn brofiad cadarnhaol a'i fod wedi eu galluogi i deimlo cysylltiad â'u hardal leol.

Mae'r bobl yn teimlo eu bod yn perthyn yn y gwasanaeth. Gwelsom fod y bobl wedi gwneud ffrindiau gydag eraill sy'n byw yn y cartref a'u bod yn mwynhau treulio amser yng nghwmni ei gilydd. Dywedodd un person wrthym fod y cartref “yn le sbeshal” a dywedodd person arall wrthym ei fod wedi setlo yn y cartref gan fod y “staff wedi dod i nabod fi, a dwi wedi dod i nabod nhw”. Gall y bobl wneud i'w hystafelloedd eu hunain deimlo fel eu gofod eu hunain, drwy gael eu heitemau eu hunain o gartref o'u cwmpas, sy'n hyrwyddo eu cyfforddusrwydd. Clywsom y gweithwyr gofal yn siarad â'r bobl mewn modd caredig a pharchus. Roeddent yn rhoi dewisiadau i'r bobl ac yn awgrymu opsiynau o'u gwybodaeth am yr hyn a wyddent am ddewisiadau'r bobl.

Mae sicrhau y caiff lleisiau'r bobl eu clywed yn flaenoriaeth yn y gwasanaeth. Caiff cyfarfodydd preswylwyr rheolaidd eu cynnal lle gall y bobl fynegi eu barn a'u safbwyntiau am y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn siarad â'r bobl yn rheolaidd er mwyn monitro boddhad y bobl â'r gwasanaeth a chaiff adolygiadau o ansawdd y gofal ffurfiol eu cynnal hefyd. Caiff y bobl ddewis mewn perthynas â dewisiadau o ddydd i ddydd ac mae eu harferion dyddiol yn cael eu parchu. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys manylion am sut y mae'r bobl am gael eu cefnogi, mae'r gweithwyr gofal yn dilyn y canllawiau a roddir ac mae'r bobl yn canmol ansawdd y gofal a roddir iddynt.

Caiff y bobl eu hannog a'u cefnogi i fod yn gorfforol iach. Caiff deiet maethlon ei ddarparu, ac mae apwyntiadau iechyd yn cael eu trefnu pan fydd anghenion y bobl yn newid. Mae meddyginiaeth yn cael ei rhoi sy'n cefnogi'r bobl i reoli eu cyflyrau iechyd. Mae angen gwella'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer storio a chofnodi meddyginiaethau.

## Gofal a Chymorth

Mae'r cynlluniau personol yn cael eu llunio gyda'r bobl, ac mae eu barn yn cael ei gynnwys yn eu cofnodion gofal. Mae'r dogfennau'n dangos bod y staff yn gofyn i'r bobl sut yr hoffent gael eu gofal ac mae eu dewisiadau unigol wedi'u cynnwys yn eu cynlluniau personol. Caiff anghenion gofal pob person eu cofnodi'n fanwl yn ogystal â'r canlyniadau y maent am eu cyflawni. Mae canllawiau ysgrifenedig ar gael i roi gwybod i'r gweithwyr gofal am y ffordd orau o gefnogi pob person. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y gofal a'r cymorth a roddir i'r bobl yn gyson. Caiff y cynlluniau personol eu hadolygu'n barhaus a'u diweddaru pan fydd unrhyw newidiadau o ran anghenion y bobl. Gwelsom fod asesiadau risg yn cael eu defnyddio i gofnodi'r risgiau hysbys i iechyd a diogelwch y bobl a'r mesurau a roddir ar waith i reoli'r risgiau. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael budd o gymryd risgiau cadarnhaol. Dywedwyd wrthym hefyd eu bod yn hapus iawn yn byw yn y cartref, a'u bod yn fodlon iawn ar y cymorth y maent yn ei gael.

Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i ddiogelu’r bobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw yn y cartref. Mae polisi diogelu cyfredol ar waith sy'n cydymffurfio â'r gweithdrefnau diogelu cenedlaethol presennol. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn cwblhau hyfforddiant diogelu a gwelsom eu bod yn hyderus yn eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r cofnodion yn dangos bod y rheolwr yn atgyfeirio materion diogelu yn briodol at yr awdurdod lleol a rhoddir gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) hefyd.

Mae mesurau ar waith i gadw'r bobl yn iach. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael eu cefnogi i adfer a chynnal eu symudedd sy'n eu galluogi i gerdded yn ddiogel ac yn annibynnol, gan ddefnyddio cymhorthion cerdded. Darperir deiet iach, amrywiol a chytbwys, a chaiff pwysau'r bobl ei fonitro. Pan fydd newidiadau yn iechyd y bobl, caiff cyngor meddygol ei geisio'n briodol ac mae'r canllawiau a roddir yn cael eu cofnodi yn nodiadau gofal y bobl. Yn ystod yr arolygiad diwethaf, nodwyd gennym fod meddyginiaeth yn faes yn y gwasanaeth yr oedd angen ei wella. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod camau wedi cael eu cymryd, ond mae'r broses storio a chofnodi meddyginiaethau yn dal yn faes yn y gwasanaeth sydd angen ei wella. Rydym yn disgwyl i ddarparwr y gwasanaeth weithredu.

## Yr Amgylchedd

Mae darparwr y gwasanaeth yn buddsoddi yn yr adeilad i sicrhau ei fod yn gyfforddus ac mewn cyflwr da. Yn ystod yr arolygiad diwethaf, gwnaethom nodi fod angen atgyweirio'r to y tu allan i fynedfa'r ystafell fwyta a'i fod yn faes i'w wella. Yn yr arolygiad hwn, gwelsom fod camau wedi cael eu cymryd a bod y to wedi cael ei atgyweirio. Mae ardaloedd eraill o'r cartref, fel heulfan yng nghyntedd y brif fynedfa, wedi cael eu hadnewyddu sy'n eu gwneud yn ardaloedd dymunol i'r bobl eistedd yng nghwmni eraill. Gwnaethom edrych ar sampl o ystafelloedd y bobl a gwelsom eu bod yn lân, wedi'u dodrefnu'n addas a'u personoli ag eitemau pwysig pob person sy'n eu galluogi i deimlo'n fwy cartrefol.

Mae dewis o lolfeydd ar gael i'r bobl eistedd ynddynt yng nghwmni eraill, os byddant yn dymuno gwneud hynny, a chymryd rhan mewn gweithgareddau. Gwelsom y bobl yn defnyddio'r lolfa fawr a'r lolfa fach, yn dibynnu ar eu dewisiadau. Mae lolfa haul ar gael hefyd, sy'n wynebu lawntiau'r gerddi. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau edrych allan tuag at y môr a'r mynyddoedd. Mae ystafell fwyta fawr ar gael lle y gwneir ymdrechion i ddarparu ardal gyfforddus i'r bobl fwyta eu prydau. Gwelsom fod llieiniau a phupur a halen yn cael eu gosod ar y byrddau a bod yr ystafell wedi cael ei haddurno â chynfasau o olygfeydd a thirnodau lleol.

Darperir ardaloedd awyr agored hygyrch a diddorol sy'n golygu y gall y bobl fwynhau treulio amser yn eistedd yng nghanol natur os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Gall y bobl fynd allan i'r ardd yn hawdd ac yn ddiogel, lle mae coed, prysgoed a gwelyau blodau lliwgar. Gall y bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau garddio ysgafn os byddant yn dymuno gwneud hynny, a gwelsom fod y bobl wedi plannu blodau'r haul yn ddiweddar a'u bod yn tyfu tomatos.

Caiff gwiriadau iechyd a diogelwch eu cwblhau sy'n sicrhau amgylchedd diogel. Caiff risgiau i iechyd y bobl a nodir o fewn yr amgylchedd eu rheoli'n dda a rhoddir mesurau priodol ar waith i liniaru'r risgiau hynny. Dyfarnwyd sgôr hylendid bwyd o bump i'r gegin, sef “da iawn”, yn dilyn arolygiad gan yr awdurdod lleol yn ddiweddar. Mae'r cofnodion yn dangos bod systemau diogelwch tân ar waith er mwyn sicrhau y caiff y rhagofalon priodol eu cymryd hefyd os bydd tân. Mae'r gweithwyr gofal yn cwblhau hyfforddiant diogelwch tân. Mae gan bob person gynllun ysgrifenedig ar waith sy'n cynnwys y cymorth sydd ei angen arno i adael yr adeilad yn ddiogel mewn argyfwng.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r gweithwyr gofal yn mwynhau eu gwaith ac yn cael eu cefnogi'n dda iawn yn eu rolau. Dywedodd y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod y rheolwr yn hawdd mynd ato ac maent yn teimlo eu bod yn gallu siarad â'r rheolwr am unrhyw faterion a allai fod ganddynt. Mae'r cofnodion yn dangos bod y gweithwyr gofal yn cael sesiynau goruchwylio un-i-un yn rheolaidd sy'n darparu cyfle ffurfiol i drafod eu gwaith ac i nodi unrhyw anghenion hyfforddiant. Caiff cyfarfodydd tîm eu cynnal yn rheolaidd sy'n rhoi'r cyfle i rannu gwybodaeth a thrafod sut y caiff y gwasanaeth ei ddarparu. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod y cyfarfodydd yn ddefnyddiol, yn eu barn nhw.

Mae'r lefelau staffio yn briodol ac yn adlewyrchu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom y gweithwyr gofal yn ymateb i anghenion y bobl wrth iddynt godi, ac ymatebwyd i glychau galw yn brydlon. Dywedodd y bobl wrthym nad oedd yn rhaid iddynt aros am gyfnodau hir o amser i gael cymorth ar ôl gofyn am help. Gwelsom y gweithwyr gofal yn treulio amser yn siarad â'r bobl yn ogystal â rhyngweithio â nhw wrth ddarparu gofal a chymorth. Cyflogir staff cegin a staff cadw tŷ sy'n golygu y gall y gweithwyr gofal ganolbwyntio'n llwyr ar gefnogi'r bobl.

Mae trefniadau ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Gwelsom fod y rheolwr yn cwblhau archwiliadau rheolaidd i wneud yn siwr bod y gwasanaeth a ddarperir yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau'r darparwr. Mae'r cofnodion yn dangos bod cyfarfodydd preswylwyr yn cael eu cynnal yn rheolaidd a gofynnir i'r bobl am eu barn am y gwasanaeth a ddarperir. Caiff barn y bobl ei chofnodi a gweithredir arni. Gwelsom fod yr Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref o leiaf bob tri mis fel rhan o'r broses i oruchwylio'r gwasanaeth. Mae adroddiadau yn dangos bod yr Unigolyn Cyfrifol yn siarad â'r gweithwyr gofal, y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'u perthnasau yn ystod ei ymweliadau. Caiff yr adborth a roddir ei gofnodi ac ymatebir yn briodol iddo. Cynhelir adolygiadau ffurfiol o ansawdd y gofal ddwywaith y flwyddyn er mwyn mesur pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn perfformio a chwilio am gyfleoedd i'w ddatblygu ymhellach.

Mae prosesau cadarn ar waith i sicrhau bod gweithwyr gofal yn cael eu recriwtio'n ddiogel. Mae'r cofnodion yn dangos bod gwiriadau addasrwydd yn cael eu cwblhau cyn i bobl newydd ddechrau gweithio yn y gwasanaeth. Cadarnhaodd y gweithwyr gofal eu bod yn gweithio shifftiau cysgodi ochr yn ochr â gweithwyr gofal mwy profiadol pan fyddant yn dechrau gweithio yn y gwasanaeth. Mae dogfennaeth yn dangos eu bod yn cwblhau cyfnod sefydlu yn y gwasanaeth yn ogystal â fframwaith sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae hyn yn eu paratoi'n dda ar gyfer eu rolau. Darperir yr hyfforddiant perthnasol sy'n hybu gwybodaeth a sgiliau'r gweithwyr gofal, a'u dealltwriaeth o anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 58 | Nid yw'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer storio meddyginiaeth yn ddiogel, a chofnodi meddyginiaethau ar siartiau meddyginiaeth yn gadarn. Sicrhau y caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel a bod y broses o gofnodi meddyginiaethau yn dilyn polisi meddyginiaeth y darparwr. | Heb Gyflawni |
| 44 | Nid oes unrhyw drefniadau ar waith i sicrhau bod pob ardal o'r amgylchedd yn cael ei chynnal a'i chadw'n briodol. Mae un rhan o'r to yn yr ardal gymuned wedi'i difrodi gan ddŵr ac mae angen ei hatgyweirio. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 20/08/2024